Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 a (Diwygio) Rheoliadau 2015 (Rheoliad 17)
RHYBUDD O ADNEUO CYNIGION AR GYFER YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR GYNLLUN DATBLYGU LLEOL
Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi paratoi dogfennau **Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)** ar gyfer y cynllun uchod. Bydd y CDLl, ar ôl ei fabwysiadu, yn disodli'r *Cynllun Datblygu Unedol (2000-2015)* presennol ac yn ffurfio sail i benderfyniadau ar gynllunio defnydd tir yn Sir y Fflint.

Mae dogfennau'r CDLl yn cynnwys y **'CDLl i'w Archwilio'**, yr Asesiad o Effaith Integredig (yn cynnwys Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol) ac **Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol** ynghyd â rhestr o **ddogfennau ategol** eraill fel y dangosir ar wefan y Cyngor.

Bydd y cyfnod ymgynghori ar y CDLl i'w Archwilio yn dechrau **ddydd Llun, 30 Medi ac yn dod i ben am 5pm ddydd Llun, 11 Tachwedd 2019**. Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhoi cyfle i'r cyhoedd weld y cynllun a chyflwyno unrhyw sylwadau.

Mae dogfennau'r CDLl, ynghyd â'r holl ddogfennau ategol i'w gweld ar wefan y Cyngor www.siryfflint.gov.uk/cdll drwy glicio ar y porth ymgynghori.

Bydd dogfennau'r CDLl ar gael i'w gweld yn swyddfeydd y Cyngor Sir yn Nhŷ Dewi Sant, Ewlo a Neuadd y Sir, yr Wyddgrug a Swyddfeydd Sir y Fflint yn Cysylltu am 6 wythnos o 30 Medi i 11 Tachwedd 2019.

Bydd copïau o ddogfennau'r CDLl ynghyd â bwrdd gwybodaeth hefyd ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio yn rhad ac am ddim yn:

Prif Lyfrgelloedd	Dyddiad	Amser
Llyfrgell Brychdyn	30 Medi – 11 Tachwedd 2019	Yn ystod oriau agor arferol y llyfrgell.
Llyfrgell Bwcle		
Llyfrgell Glannau Dyfrdwy		
Pafiliwn Jade Jones y Fflint (mae Llyfrgell y Fflint ar gau i'w adnewyddu)		
Llyfrgell Treffynnon		
Llyfrgell Gymunedol Mancot		
Llyfrgell yr Wyddgrug		

Bydd **cyfres o sesiynau galw heibio** yn cael eu cynnal yn y lleoliadau canlynol ar y dyddiadau a'r amseroedd a ddengys isod a bydd swyddogion wrth law yn ystod y sesiynau i arwain a chynghori'r cyhoedd ar sut y gellir gwneud sylwadau ar y dogfennau.

Lleoliad	Dyddiad ac Amser
Canolfan Gymunedol Brychdyn a Bretton, Brookes Avenue, Brychdyn	4pm - 8pm, Dydd Mawrth, 1 Hydref 2019
Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Bwcle (Bistre), Ffordd Nant Mawr	4pm - 8pm, Dydd Mercher, 2 Hydref 2019
Canolfan Gymunedol Parkfields Yr Wyddgrug, Ash Grove	4pm - 8pm, Dydd Iau, 3 Hydref 2019
Neuadd Bentref Mancot a Moor, Lôn Mancot	4pm - 8pm, Dydd Gwener, 4 Hydref 2019
Cei Connah, Adeilad y Cei, Fron Road	4pm - 8pm, Dydd Llun, 7 Hydref 2019
Canolfan Gymunedol Heulwen Close, Yr Hob - Caergwrle Abermorddu Cefn y Bedd	4pm - 8pm, Dydd Mawrth, 8 Hydref 2019
Canolfan Gymunedol Woodside Close, Ewlo	4pm - 8pm, Dydd Mercher, 9 Hydref 2019
Neuadd y Dref, Sgwâr y Farchnad, Y Fflint	4pm - 8pm, Dydd Iau, 10 Hydref 2019
Sefydliad Coffa Caerwys - South Street, Caerwys. **Caerwys i ganolbwyntio ar gynigion mwynau**	4pm - 8pm, Dydd Mawrth, 15 Hydref 2019
Canolfan Gymunedol New Brighton, Ffordd Moel Famau	5pm - 8pm, Dydd Gwener, 18 Hydref 2019

Dylid gwneud sylwadau ar y CDLl i'w archwilio ar-lein drwy'r Porth Ymgynghori CDLl

https://consult.flintshire.gov.uk/portal/

Fel arall, gellir gwneud sylwadau'n defnyddio'r Ffurflen Sylwadau, ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor:

www.siryfflint.gov.uk/cdll

Neu gellir e-bostio sylwadau at y Cyngor:

developmentplans@flintshire.gov.uk

Yn olaf, gellir cyflwyno sylwadau'n ysgrifenedig a'u hanfon at y Cyngor:

Andrew Farrow, Prif Swyddog – Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NF.

Dylai sylwadau fynegi **cefnogaeth** neu **wrthwynebiad** yn glir. Dylai sylwadau (yn cynnwys sylwadau sy'n gwrthwynebu) nodi pa ran o'r cynllun y mae'r sylw yn ymwneud ag ef a manylu ar ba newidiadau a ddylid eu gwneud.

Dylai gwrthwynebiadau gynnwys rhesymau ac, os yw'r ymatebydd yn dymuno, dylai fanylu ar ba **Brofion Cadernid** a fethwyd gan y Cynllun (*mae'r Profion Cadernid wedi'u nodi ym mharagraff 3.2 o'r Datganiad Ysgrifenedig*).

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Papur Cefndirol – Asesiad o Safleoedd Posibl / Amgen. Nid oes unrhyw un o'r safleoedd amgen, a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir (a chyhoeddwyd yn y Gofrestr o Safleoedd Amgen) wedi'u cyflwyno yn y CDLl i'w Archwilio. Serch hynny, fel rhan o'r archwiliad i'r CDLl, mae'n bosib y bydd Safleoedd Amgen o'r fath yn cael eu cynnwys yn y Cynllun. Felly, mae cyfle i sylwadau gael eu gwneud ar y safleoedd amgen rŵan. Mae'n rhaid i unrhyw safle newydd a gyflwynir fel rhan o'r sylwadau i'r Cynllun gynnwys cynllun safle yn nodi lleoliad a ffin y safle yn glir.

Mae'n rhaid i'r holl sylwadau ddod i law erbyn 5.00pm ddydd Llun, 11 Tachwedd 2019, ni fydd unrhyw sylw a dderbynnir wedi hynny yn cael ei ystyried.

Bydd yr holl sylwadau a wneir am y Cynllun ar gael i'r cyhoedd eu gweld cyn gynted â phosib ar ôl y cyfnod ymgynghori.

Ni all yr Awdurdod Cynllunio Lleol newid y cynllun yn ystod y cam hwn ond gall benderfynu p'run ai yw o blaid unrhyw newid a gynigiwyd o ganlyniad i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Bydd sylwadau sydd wedi'u gwneud yn unol â'r hysbysiad hwn (hynny yw 'yn briodol') yn cael eu hystyried gan Arolygydd annibynnol a benodwyd i archwilio cadernid y cynllun.

Dim ond y rhai sydd wedi gwneud sylwadau ‘yn briodol’ er mwyn ceisio newid y CDLl i’w Archwilio (hynny yw gwrthwynebwyr) a fydd yn cael ymddangos gerbron yr Arolygydd yn ystod yr Archwiliad a chael gwrandawiad (Adran 64(6) Deddf 2004).

Andrew Farrow
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a’r Economi)

Medi 2019

Mae’r dogfennau ategol yn cynnwys y canlynol:

Dogfennau Ategol
Cytundeb Cyflawni Diwygiedig CDLl Sir y Fflint Mai 2019
Datganiad Ysgrifenedig Cynllun Datblygu Lleol Adneuo 2019
Asesiad Effaith Integredig (Yn cynnwys Gwerthusiad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol) 2019
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd 2019
Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol
Hysbysiad Cyhoeddus
Ffurflen Gynrychiolaeth
Taflen gyda Chrynodeb
Map Cynigion Sir y Fflint 1
Map Cynigion Sir y Fflint 2
Map Cynigion Sir y Fflint 3
Cynllun Mewnosod Aston / Shotton
Cynllun Mewnosod Bwcle
Cynllun Mewnosod Cei Connah
Cynllun Mewnosod y Fflint
Cynllun Mewnosod Treffynnon
Cynllun Mewnosod Yr Wyddgrug
Cynllun Mewnosod Queensferry
Cynllun Mewnosod Saltney
Astudiaeth Cymhwysedd Trefol 2019
Datganiad Monitro Tir Ar Gyfer Tai 2018
Papur Cefndirol 1 Adolygiad o’r Rhwystr Glas 2019
Papur Cefndirol 2 Adolygiad o’r Seilwaith Gwyrdd 2019

Papur Cefndirol 3 Cynllun Isadeiledd 2019
Papur Cefndirol 4 Mwynau 2019
Papur Cefndirol 5 Gwastraff 2019
Papur Cefndirol 6 Chwilio am Safle Sipsiwn a Theithwyr
Papur Cefndirol 7 Tai Fforddiadwy 2019
Papur Cefndirol 8 Asesiad o Ymgeiswyr / Safleoedd Eraill
Papur Cefndirol 9 Lleihau Colled Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas 2019
Papur Cefndirol 10 Cyflenwad a Darparu Tai
Papur Cefndirol 11 Hunanasesiad Cywirdeb
Papur Cefndirol 12 Yr Iaith Gymraeg
Papur Cefndirol 13 Ynni Adnewyddadwy
Astudiaeth Manwerthu Sir y Fflint 2019
Astudiaeth Hyfywedd Sir y Fflint 2019 (Astudiaeth yn cynnwys hyfywedd economaidd o ddarparu tai fforddiadwy ledled Sir y Fflint)
Adolygiad Tir Cyflogaeth 2015
Asesiad Senarios Twf Cyflogaeth Pellach Sir y Fflint 2015
Cyngor ar Dai a Chyflogaeth Ebrill 2019
Asesiad Llety i Sipsiwn a Theithwyr 2016 a diweddariad 2019
Asesiad Marchnad Dai Leol 2015 ac Adroddiad Cyd-Destunol
Cofnodion Grŵp Strategaeth Cynllunio
Diweddariad ar Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2018
Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol 2018
Asesiad Ynni Adnewyddadwy CDLl Sir y Fflint 2019
Uwchgynllun Warren Hall a Datganiad Darparu
Uwchgynllun Porth Y Gogledd a Datganiad Darparu - Pochin Goodman
Uwchgynllun Porth Y Gogledd a Datganiad Darparu - Ancer Spa (Praxis / Crag Hill Estates)
Sylwebaeth ar Amcanestyniadau yn Seiliedig ar Aelwydydd 2017 a Ragwelwyd